**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 07.07.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Ceri Griffiths, Rhian Corps, Mark Lewis, Simon Turner, Tegid John.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), James Maxwell (Is-Gadeirydd), Edwina Evans, Wendy Williams, Gordon Howie, Reg Chapman, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 6 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd
Eisiau gwybod pam bod £1,300 ar gyfer storio yn y gyllideb ag eglurwyd bod rhaid i'r Cyngor gael lle i storio goleuadau nadolig, seddi cyhoeddus a.y.y.b mewn lle diogel.
Eglurwyd na camgymeriad oedd bod Un Llais Cymru i lawr ddwy waith yn y cofnodion saesneg o 27ain Ionawr, 'Roedd y £4,000 oedd wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer gwariant yn y rhandiroedd a nid grant oedd y swm.
Eisiau gwybod pam bod yr holl wybodaeth ddiangen dal ar y wefan, pam bod polisi cwcis a preifatrywdd Cyngor Talsarnau ar wefan y Cyngor a nid oedd hyn yn cydymffurfio a nid oedd manylion y Cynghorwyr na e-bost y Clerc ar y wefan ag eglurwyd bod yr Is-Gadeirydd ar Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r gweinyddwr y wefan.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd ar Cyng. Ceri Griffiths a'r teulu yn marwolaeth ei Mham.
Datganwyd ganddo bod hi wedi bod yn yn fis prysur a wedi cyfarfod i gael y diweddariad ynglyn a HAL ag hefyd datganodd bydd angen cyfarfod o'r is-bwyllgor cyllid yn mis Awst.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 2il 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.
Datganodd y Cyng. Christopher Braithwaite ddiddordeb yng nghais cynllunio Y Foel, Harlech ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael sawl aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu a hi yn datgan pryder bod safle Ffridd Rasus yn cau ag oherwydd hyn 'roedd wedi cael cyfarfod gyda un o'r Swyddogion o Gyngor Gwynedd i gael gwybod beth oedd y diweddaraf ynglyn ar safle hwn ag 'roedd wedi cael gwybod nid oes cynlluniau i gau y safle ond nid ydynt yn agored ar fore Llun i'r cyhoedd ar sail iechyd a diogelwch. 'Roedd wedi bod mewn trafodaethau gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd ynglyn a thoiledau cyhoeddus maes parcio Min y Don a wedi cael gwybod bod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda Swyddog o'r Adran Eiddo i weld beth all gael ei wneud i uwchraddio y toiledau hyn, hefyd wedi cael gwybod bod y gwair yn Parc Bron y Graig wedi cael ei dorri dydd Gwener diwethaf. Cytunwyd i ail agor trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i gymeryd Parc Bron y Graig drosodd. Cafwyd wybod bod y gwair yn Parc Bron y Graig heb gael ei dorri ar ddydd Sadwrn y 5ed o'r mis hwn.

Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod wedi rhoid cynnig o rybudd yng nghyfarfod Llawn Cyngor Gwynedd i wneud gyda rheilffyrdd ag yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru yn ei chyfanrwydd yn cael ei datganoli i Gymru ar fyrder, hefyd 'roedd wedi rhoid cwestiwn i mewn i gyfarfod y Cyngor Llawn yn gofyn beth oedd y diweddariad ynglyn a ffordd osgoi Llanbedr. 'Roedd wedi mynychu cymorthaf yn y dref gyda Liz Saville Roberts a Mabon Ap Gwynfor. 'Roedd wedi cael ei apwyntio yn Gadeirydd pwyllgor trwyddedu y Cyngor.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £11,387.51 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £26,577.99 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26. Cytunwyd bod yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn mis Awst.

**Cwblhau Manada Newydd**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod angen adolygu yr uchod a cwblhau un newydd oherwydd bod y mwyafrif o enwau oedd ar yr un presennol ddim ar y Cyngor rhagor. Gafodd hyn ei wneud.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau ar Clerc**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru yn amlinellau y cyrsiau hyfforddiant oedd ar gael rhwng mis Mehefin a Medi ag ei bod wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Cytunwyd bod angen mynychu yr hyfforddiant canlynol - Gynefino i Gynghorwyr Newydd, Y Cyngor, Y Cynghorydd, Dealltwriaeth o'r Gyfraith, Cyfarfod y Cyngor , Iechyd a Diogelwch a Cod Ymddygiad

**Cae Chwarae Brenin Sior**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton yn dilyn ymweld gan asesydd o Cadw Cymru'n Daclus Gwobr y Fflag Werdd ag er bod yr asesydd yn fodlon gyda'r cynnal a chadw cyffredinol, 'roedd wedi datgan dylai sylw pellach gael ei wneud i wella mynediad i rhai oedd yn llai symudol ar anabl i wneud yn siwr bod cadair olwyn a defnyddwyr pramiau yn gallu mwynhau y berllan/ardal y gadair dweud stori yn llawn. Felly yn dilyn hyn yn gofyn i'r Cyngor osod giat newydd ar hyd ochor y ffordd ynghyd a llwybr tebyg i'r un sydd yna yn barod er mwyn creu llwybr yn syth i safle eistedd y berllan. Cytunwyd bod angen diweddaru manylion y Comisiwn Elusenol a ychwanegu enwau y Cyng. James Maxwell a Reg Chapman i'r gofrestr Ymddiredolwyr. Datganodd y Clerc bod Mr. Gareth John Williams wedi cysylltu a hi yn gofyn am ganiatad y Cyngor i dorri y gwair bob tair wythnos yn lle bob mis a datganwyd byddai yn well i'r gwair gael ei dorri bob pythefnos.

**Cyfarfod Un Llais Cymru – Dolgellau 14.5.25**

Adroddodd y Cyng. Martin Hughes ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ag ei fod yn gyfarfod gyda ychydig o rhai wedi mynychu ond yn gyfarfod diddorol a wedi cyfarfod y Swyddog Datblygu newydd Mrs Katherine Brown. 'Roedd y Clerc wedi anfon ymlaen copi o gofnodion y cyfarfod hwn i'r Aelodau yn barod.

**HAL**

Cafwyd wybod gan y Cyng. Reg Chapman mae ef yn nawr yw Cadeirydd Bwrdd yr uchod ag ei fod wedi rhoid datganiad ynglyn a hyn ar y 7ed o Fehefin ag hefyd wedi rhyddhau datganiad i'r wasg a derbyniwyd yr adroddiad canlynol ganddo ynglyn a'r sefyllfa diweddaraf ynglyn a HAL.

1. Mae y Bwrdd wedi cyfarfod ar grwp Gwesty Celtic Collections.
2. Maent wedi gwneud adroddiad newydd ar eu hymrwymiad i reoli a rhentu'r safle. Maent yn chwilio am westy 100 o welyau gyda phwll nofio a chyfleusterau hamdden.
3. Byddant yn darparu cyflwyniad I Gyngor Cymuned Harlech ar eu cynnig.
4. Nid yw Clwb Golff Dewi Sant yn uniongyrchol yn ymwneud nag yn cydweithio yn y cyfnod cynnar hwn o'r cynnig.
5. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd, Cadeirydd ag Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cyfarfod a Pobl I drafod gwahanol faterion gan gynnwys eu cynllun ariannol. Mae dogfen ddangosol newydd wedi'i chynhyrchu ganddynt. Bydd hyn yn cael ei edrych arno yn ystod y cyfarfod Bwrdd nesaf.
6. Mae mynediad I safle y pwll nofio wedi cael ei ganiatau I Pobl er mwyn iddynt gallu cario allan asesiad ychwanegol o'r offer a.y.y.b

7. Mae nifer o eitemau sydd heb eu datrys o hyd i'w darparu gan Gymnasteg Moelwyn. Mae'r rhain yn cynnwys costau adeiladu diwygiedig ar ôl ymgynghori â cynllunio PCE.
8. Mae gwybodaeth bellach yn cael ei chwilio am gefnogaeth ariannol Gymnastig Cymru ar gyfer y prosiect hwn.
9. Mae amseriad trosglwyddo'r Ased i CCH yn dibynnu ar asesiad risg. Mae hyn i'w ystyried o hyd. Derbyniwyd cynnig am gyngor proffesiynol ac fe'i basiwyd ymlaen i is-bwyllgor cyllid CCH.
10. Mae meini prawf ar gyfer asesu gwerth cymdeithasol i gymuned Harlech yn cael ei ddatblygu i roi mesur i CCH i asesu'r holl gystadlaethau am y safle.
11. Yn dilyn beirniadaeth gyfrifoldeb cymdeithasol leol arall a annymunol mae'n debyg y bydd rhai aelodau eraill o'r Bwrdd yn ymddiswyddo yn y dyfodol agos.
12. Mae'r polisi yswiriant ar gyfer y safle wedi'i adnewyddu.
13. Mae'r argymhellion ar gyfer trosglwyddo Asedau i CCH yn cael eu.hasesu gan Y Cyng. Lewis. Mae arbenigwr ar Drosglwyddo Asedau, sy'n gweithio dros Gyngor Sir y Fflint fel swyddog arweiniol ym Menter Datblygu Cymdeithasol, ar gael fel ymgynghorydd i gynorthwyo CCH. Nid oes arbenigwr ar gael o Wynedd.
Cytunwyd bod y Cadeirydd yn gofyn i'r Cyng. Mark Lewis i fwrw ymlaen gyda asesiad risc cyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned i fyny hyd at £2,500 a cytunodd y Cyng. Edwina Evans i hyn gael ei wneud a fe wnaeth y Cyng. James Maxwell ei eilio. Gofynwyd i Fwrdd HAL a fyddai yn bosib iddynt wneud gwerthusiad o'r ddau gynnig a gofyn i Celtic Resorts i wneud cyflwyniad.

**<u>Cronfa Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri</u>**
Cafwyd wybod gan y Cyng. Martin Hughes bydd y gronfa gyfalaf ar gael i gymunedau lleol a grwpiau/cymdeithasau gwirfoddol at ddibenion cydnerthedd economaidd-gymdeithasol ar dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 1af Awst, 2025.

**<u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

**<u>Dymchwel yr ystafell wydr presennol ac adeiladu estyniad newydd gyda insiwleiddio allanol i'r tŷ, a codi sied gardd/garej ar wahân newydd (cais diwygiedig) 23 Ystad Castell Morfa, Harlech (NP5/61/660A)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>Codi estyniad cefn unllawr Hafan Bach, Tŷ Canol, Harlech (NP5/61/675)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Presennol) i ddefnyddio'r eiddo fel uned gosod gwyliau tymor byr sy'n dod o dan Orchymyn Dosbarth Defnydd C6 Gwelfor, Tryfar Terrace, Harlech (NP5/61/LUT312A)</u>**
Ddim yn cefnogi y cais hwn oherwydd bod dim digon o wybodaeth wedi ei dderbyn.

**<u>Cais ôl-weithredol i gadw paneli solar ar y drychiadau blaen a cefn 71 Glan Gors, Harlech (NP5/61/676)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>Gosod 23 panel solar ar y ddaear Foel, Harlech (NP5/61/608F)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>Codi estyniad ffrynt unllawr a estyniad to gwydr unllawr i'r cefn Erinfa, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/669B)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>Cais ôl-weithredol i gadw adeilad allanol o fewn cwrtil tŷ presennol. Erinfa, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/669A)</u>**
Cefnogi y cais hwn.

**<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL</u>**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £21,195.35 yn y cyfrif rhedegol a £114,480.01 yn y cyfrif cadw.

**<u>Taliadau yn ystod y mis</u>**
Mr Lee Warwick - £358.95 – glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa (Mai a Mehefin)
Mr. Lee Warwick - £50.00 - torri o amgylch y rhandiroedd
Wateroo Ltd - £1,471.20 - cario allan archwiliad o tir Pen y Graig

Mr. Meirion Evans - £540.00 – clerio y ffens ar hyd ochor ffordd yr A496
Mr. G. J. Williams - £162.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed
Mrs Annwen Hughes - £104.99 – ad-daliad tanysgrifiad trwydded microsoft 365
Cyllid a Thollad - £109.80 – treth ar gyflog y Clerc

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Christopher Braithwaite a wnaeth y Cyng. Martin Hughes gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi cael e-bost gan y banc yn datgan eu bod yn dod ar taliad misol o £8 I ben ar y 1af o'r mis hwn.

Gofynnodd y Trysorydd am ganiatad y Cyngor I wneud taliadau sydd I weld yn rhai brys yn ystod mis Awst oherwydd nid oes cyfarfod swyddogol o'r Cyngor tan mis Medi. Cytunwyd I ddirprwyo y mater hwn I'r is-bwyllgor cyllid gyda swm I fyny hyd at £15,000

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Cyngor Gwynedd - £6,685.56 – cyfraniad o incwm y meusydd parcio

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu

**GOHEBIAETH**
**Mr. D. Richards**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am ganiatad I osod mainc er cof am ei Dad Mr. David Richards a datganodd y Clerc ei bod wedi gofyn iddo a fyddai yn bosib iddo rhoid syniad i'r Cyngor o le byddant yn dymuno i'r fainc mae gael ei gosod ond nid oedd wedi clywed dim ymhellach ganddo. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**Ms Karen Berry**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a llwybr gyferbyn ag 18 Parc Bron y Graig ag yn gofyn a fyddai y Cyngor Cymuned yn gallu trefnu bod y llwybr hwn yn cael ei glerio. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cafwyd wybod bod y Cadeirydd yn delio gyda'r mater hwn.

**Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a cyfarfod pwyllgor Ardal Meirionnydd a fydd yn cael ei gynnal ar yr 16eg o'r mis hwn yn Penrhyndeudraeth. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Datganodd y Cyng. Martin Hughes y byddai yn mynychu y cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth ar y 16eg.

**Mrs Myfanwy Jones**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a'r darn tir gyferbyn a'i thy. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cafwyd wybod bod y Cyng. Reg Chapman yn delio gyda'r mater hwn.

**Teulu Gwynedd**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am ganiatad y Cyngor i fynd ar Trelar Chwarae i gae chwarae Brenin Sior ar y 6ed o Awst rhwng 10.30 a 12.30. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Rhoddwyd ganiatad iddynt.

**<u>Ms Paula Ireland</u>**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ar diweddariad gyda'r rhandiroedd ag yn datgan eu bod yn nawr wedi sefydlu pwyllgor, bod ganddynt Gyfansoddiad ag hefyd yn y broses o agor cyfrif banc. Hefyd yn gofyn am gadarnahd bod gan y Cyngor yswiriant i'r rhandiroedd, a bod Mr. Lee Warwick wedi cytuno torri ardal y rhandiroedd bob tair wythnos. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................** 851